wrexham
COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

Adroddiad
Archwilio Blynyddol

Ebrill 2005 – Mai 2006

Cynnwys

Rhagair gan y Cynghorydd Mike Edwards, Hyrwyddwr Archwilio Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam Ar gyfer Ebrill 2005 – Mai 2006 — Tudalen 2

Rhagair gan Isobel Garner, Y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam — Tudalen 3

1 Adolygiad Ebrill 2005 – Mai 2006 — Tudalennau 4 -29

2 Edrych ymlaen at y cyfnod Mehefin 2006 – Mai 2007 — Tudalennau 30- 32

Atodiadau — Tudalennau 33 - 38

Atodiad 1: Rhestr wirio'r adolygiad archwilio

Atodiad 2: Cwestiynau heriol

Atodiad 3: Enghraifft o broses a ddatblygir i fonitro canlyniadau'r pwyllgorau

Adroddiad Blynyddol - Rhagair

Rhagair gan y Cynghorydd Mike Edwards,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam,
Hyrwyddwr Archwilio ar gyfer Ebrill 2005 – Mai 2006

Rwy'n falch iawn o ysgrifennu'r rhagair hwn ar gyfer Adroddiad Archwilio Blynyddol Ebrill 2005 – Mai 2006 yn ystod fy nhrydedd flwyddyn fel Hyrwyddwr Archwilio i Wrecsam. Gobeithiaf y bydd hwn, ein trydydd Adroddiad Archwilio Blynyddol, yn galluogi'r Cyngor i fyfyrio ar waith y Pwyllgorau Archwilio dros y flwyddyn ddiwethaf ac i edrych ar rai o'r cynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol yn cydnabod gwaith caled yr aelodau sydd wedi gwasanaethu ar Bwyllgorau Archwilio dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae adolygiadau archwilio pwysig wedi'u cynnal dros y 12 mis diwethaf a gwn y bydd angen cynnal archwiliadau difrifol ar rai materion pwysig dros y 12 mis nesaf. Credaf y bydd y flwyddyn nesaf yn un heriol i Aelodau Archwilio gan y byddwn yn wynebu gorfod adolygu materion anodd, cymhleth ac emosiynol yn aml. Fodd bynnag, credaf hefyd fod yr Aelodau yn barod am yr her hon.

Bydd y Cynghorydd Joan Lowe yn cymryd y llyw fel Hyrwyddwr Archwilio o Fai 2006 ymlaen ac rwy'n siŵr y bydd y Cynghorydd Lowe yn mwynhau'r rôl cymaint ag y gwnes i.

Rwy'n bwriadu parhau i fod yn Aelod Archwilio rhagweithiol ac edrychaf ymlaen at flwyddyn a fydd yn un gyffrous a heriol arall rwy'n siŵr. Credaf y bydd archwilio yn parhau i ddatblygu a chwarae rôl ganolog i wella perfformiad y Cyngor trwy adolygu, herio, dadlau ac archwilio materion allweddol, polisïau a'r gwasanaethau a ddarperir.

Y Cynghorydd Mike Edwards

Hyrwyddwr Archwilio (Ebrill 2005 – Mai 2006)
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Adroddiad Blynyddol - Rhagair

Rhagair gan Isobel Garner, Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Rwy'n falch iawn o gael cyfrannu at y trydydd Adroddiad Archwilio Blynyddol.

Mae'r Pwyllgorau Archwilio yn hanfodol bwysig, a hynny'n fwy nag erioed dros y 12 mis nesaf mae'n debyg. Mae gweledigaeth Syr Jeremy Beecham i gael gwasanaethau cyhoeddus i ganolbwyntio mwy ar ddinasyddion ac i fod yn fwy llym ar berfformiad yn un yr wyf yn ei chydnabod yn llawn. Nododd adroddiad Beecham y dylai "archwiliadau fod yn lifer cryf i wella darpariaeth ac y dylai weithio ar draws terfynau sefydliadol". Rhan o fy nhasgau dros y 12 mis nesaf yw meddwl sut y gall Wrecsam symud y rhaglen diwygio gwasanaeth cyhoeddus ymlaen a gweithredu argymhellion yr adroddiad hwn.

Eleni, mae Aelodau Archwilio wedi cymryd rôl hyd yn oed yn fwy rhagweithiol, er enghraifft trwy gynnal adolygiadau mwy hirdymor trwy gyfrwng Tasgluoedd Byrdymor Archwilio ac ymweld â safleoedd i helpu i fod yn sail i adolygiadau. Mae Aelodau Archwilio wedi chwarae rôl allweddol yn agenda cydweithio'r Cyngor. Tynnaf sylw arbennig at adolygiadau a gynhaliwyd mewn perthynas â Wardeiniaid Cymdogaethol, y Polisi Cludiant Ysgolion ac Anghenion Addysgol Arbennig.

Mae archwilio yn parhau i chwarae rôl hanfodol, yn arbennig o ran dod â gwelliannau i wasanaethau'r Cyngor ac i helpu i ffurfio polisïau'r Cyngor. Mae'r Pwyllgorau wedi cynnal ystod eang o waith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac mae hyn yn amlwg yn eu proffil mewn rhai o'r prosiectau mawr sydd wedi'u cyflawni. Mae eu Rhaglen Waith Gynlluniedig hefyd yn dangos y cyfanswm uchelgeisiol o waith, amser ac egni y maent yn bwriadu ei roi yn ystod y 12 mis nesaf.

Isobel Garner

Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Adroddiad Archwilio Blynyddol
Ebrill 2005 - Mai 2006

Dyma'r trydydd Adroddiad Archwilio Blynyddol sy'n ofynnol gan Gyfansoddiad y Cyngor. Mae adroddiadau blaenorol wedi'u strwythuro o amgylch y flwyddyn ariannol (cyfnod o Ebrill - Mawrth), fodd bynnag bydd adroddiadau'r dyfodol yn cynrychioli'r flwyddyn fwrdeistrefol (Mehefin - Mai). I alluogi'r newid hwn, oni nodir yn wahanol, mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn cwmpasu cyfnod o 14 mis (Ebrill 2005 - Mai 2006).

1. Adolygiad Ebrill 2005 – Mai 2006

1.1 Cefndir

1.1.1 Sefydlwyd strwythur democrataidd presennol y Cyngor Sir mewn ymateb i ofynion Deddf Llywodraeth Leol 2000. Cyflwynodd Rhan II Deddf Llywodraeth Leol 2000 fframwaith gwneud penderfyniadau ar gyfer Awdurdodau Lleol lle gwahanir y broses gwneud penderfyniadau a'r broses archwilio.

1.1.2 Cytunwyd ar drefniadau rheolaeth wleidyddol y Cyngor gan y Cyngor ym Mai 2002 ac fe'u diwygiwyd ym Medi 2003. Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys Arweinydd, Dirprwy Arweinydd, Bwrdd Gweithredol (y broses gwneud penderfyniadau) a phum Pwyllgor Archwilio (y broses archwilio), a phenodwyd cyd-gadeiryddion ar gyfer pob Pwyllgor. Mae aelodaeth y Pwyllgorau Archwilio yn seiliedig ar gydbwysedd gwleidyddol. Gan eu bod yn ddwy swyddogaeth ar wahân, ni all Aelodau wasanaethu ar y Bwrdd Gweithredol yn ogystal â'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r Cyngor llawn yn cynnwys pob un o'r 52 Aelod ac mae'n pennu polisïau a strategaethau allweddol gan gynnwys y gyllideb.

1.1.3 Yn ogystal, penderfynwyd yn y Cyfarfod Blynyddol ym Mai 2005 y dylid rhoi cyfrifoldeb Aelod Arweiniol i Aelodau Gweithredol.

1.1.4 Yn unol â Chyfansoddiad presennol y Cyngor Sir a Deddf Llywodraeth Leol 2000, mae cylch gorchwyl y Pwyllgorau Archwilio yn cwmpasu archwilio, adolygu a herio materion sy'n cael effaith ar bobl Wrecsam. Gall hyn gynnwys materion polisi a pherfformiad, materion yn ymwneud â gwasanaeth y Cyngor ac asiantaethau allanol, materion trawsdoriadol corfforedig a phenderfyniadau'r Bwrdd Gweithredol. Bydd Pwyllgorau Archwilio yn gwneud argymhellion a/neu ganlyniadau yn dilyn yr adolygiad archwilio.

1.1.5 Fel y nodir uchod, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2000, mae Pwyllgorau Archwilio a'r Bwrdd Gweithredol yn ddwy swyddogaeth ar wahân. Fodd bynnag, yn Wrecsam, yn aml caiff argymhellion a wneir gan yr Aelodau Archwilio eu hanfon ymlaen at y Bwrdd Gweithredol i'w hystyried, ac yn yr

un modd, mae'r Bwrdd Gweithredol yn aml yn gofyn i'r Aelodau Archwilio a fyddent yn barod i gynnwys materion yn eu rhaglenni gwaith pan maent yn teimlo bod angen adolygu neu ymchwilio i rywbeth. Gall Pwyllgorau Archwilio hefyd alw i mewn a herio penderfyniadau a wnaethpwyd gan y Bwrdd Gweithredol yn unol â'r Cyfansoddiad a Deddf Llywodraeth Leol 2000.

1.1.6 Yn ogystal â'r pum Pwyllgor Archwilio, mae'r deg cyd-gadeirydd yn cwrdd yn rheolaidd fel Grŵp Cydlynol i ddyrannu cyfrifoldebau am faterion nad ydynt yn addas i'w cynnwys yng nghylchoedd gorchwyl unrhyw Bwyllgor Archwilio ac i gynnal trosolwg o ran datblygiad parhaus y swyddogaeth archwilio. Aelodau'r Grŵp Cydlynol Cyd-gadeiryddion Archwilio yn ystod y cyfnod hwn oedd:

- Y Cynghorwyr Joan Lowe (Cadeirydd); David Broderick MBE, Jim Colbert, Warren Coleman OBE, Ron Davies, June Fearnall, Jim Kelly KSG, Mike Edwards, Ron Prince, Shan Wilkinson a Malcolm Williams.
- Gwasanaethodd y Cynghorwyr Andrew Bailey, R.J.Dutton OBE, Gareth Griffiths a Rodney Skelland hefyd yn ystod cyfnod Ebrill 2005-Mai 2005.

Mae rhai o'r materion allweddol y dadleuwyd yn eu cylch yn y cyfarfodydd hyn yn cynnwys:

- Hyfforddi a datblygu Aelodau Archwilio
- Adolygu rhaglenni gwaith
- Yr Adroddiad Archwilio Blynyddol
- Datblygu polisïau
- Trefniadau rheoli gwleidyddol
- Gosod targedau a rôl archwilio yn y broses
- Datblygu proses i archwilio perfformiad
- Rôl gweithgorau eraill
- Y broses gyllidebu

1.1.7 Am y tro cyntaf yn Ionawr 2003, secondiwyd swyddog i ddarparu cefnogaeth arbennig i'r broses archwilio. Gwnaethpwyd y swydd hon yn un barhaol yn Ebrill 2004. O ganlyniad i adolygiad pellach o'r adnoddau angenrheidiol i gefnogi gwaith archwilio yn effeithiol, estynnwyd y tîm gan gynnwys penodi Swyddog Archwilio a Chynorthwy-ydd Archwilio yn 2004. Pan grëwyd y tîm yn wreiddiol, daethpwyd i benderfyniad ymwybodol y dylid penodi swyddogion a oedd â sgiliau a phrofiadau o berfformiad, gwelliant ac adolygu.

Bellach mae'r tîm archwilio wedi'i sefydlu fel adnodd annibynnol i gefnogi'r swyddogaeth archwilio. Un o brif gyfrifoldebau'r tîm archwilio yw sicrhau bod y broses archwilio gyffredinol a'r broses adolygu yn arbennig yn effeithiol. Mae'r tîm archwilio yn cynghori ynghylch cyfeiriad strategol a datblygiad y swyddogaeth archwilio; cynghori a chydlynu rhaglenni gwaith y dyfodol; cynghori, cefnogi a chynorthwyo yn natblygiad yr aelodau archwilio trwy nodi anghenion, trefnu a hwyluso hyfforddiant; gwneud gwaith ymchwil

a dadansoddi gwybodaeth i helpu i fod yn sail i adolygiadau; cynhyrchu adroddiadau; cynnig cyfarwyddyd a chyngor mewn perthynas â datblygu polisi a rheoli perfformiad; bod yn bwynt cyswllt i Aelodau, swyddogion a'r cyhoedd mewn perthynas â materion archwilio.

1.2 Newidiadau cyfansoddiadol

1.2.1 Ailstrwythuro trefniadau archwilio

Yn 2005, adolygwyd strwythur, cylch gorchwyl ac aelodaeth y Pwyllgorau Archwilio a rhoddwyd y cynigion i'r Cyngor Blynyddol ym Mai 2005.

Cytunwyd ar y canlynol:

- Dylai'r Cyngor gadw 5 Pwyllgor Archwilio sydd â chydbwysedd gwleidyddol
- Dylai pob pwyllgor gynnwys 13 o aelodau (yn flaenorol roedd yn amrywio rhwng 10 – 14 aelod)
- Byddai'r cworwm yn isafswm o 5 aelod.
- Dylai'r Awdurdod gadw at ei drefn o gael Cyd-gadeiryddion yn hytrach na Chadeirydd ac Is-gadeirydd ar gyfer y swyddogaeth archwilio.
- Dylai'r Grŵp Cydlynol Cyd-gadeiryddion Archwilio fod yn gyfrifol am benodi Hyrwyddwr Archwilio yn flynyddol.

Cytunwyd hefyd y dylid newid cylch gorchwyl y Pwyllgorau Archwilio canlynol:

- Pwyllgor Archwilio Materion Corfforedig i droi'n Bwyllgor Archwilio Llywodraeth a Pholisïau Corfforedig
- Pwyllgor Archwilio Ariannol i droi'n Bwyllgor Archwilio Cyllid a Pherfformiad.

Y 5 pwyllgor archwilio presennol y penderfynodd y Cyngor arnynt ym Mai 2005 yw'r:

- Pwyllgor Archwilio Plant a Phobl Ifanc
- Pwyllgor Archwilio Llywodraeth a Pholisïau Corfforedig
- Pwyllgor Archwilio'r Amgylchedd ac Adfywiad
- Pwyllgor Archwilio Cyllid a Pherfformiad
- Pwyllgor Archwilio Materion Cymdeithasol, Iechyd a Thai

1.2.2 Newidiadau cyfansoddiadol eraill

Yn y Cyngor Blynyddol ym Mai 2006, cyflwynwyd protocol newydd yn ymwneud â rheolaeth ac ymddygiad y wasg mewn cyfarfodydd archwilio.

1.3 Datblygu aelodau

1.3.1 Er mwyn gwella sgiliau a gwybodaeth yr aelodau a gwella effeithiolrwydd y swyddogaeth archwilio, cynhaliwyd sesiynau datblygu Aelodau yn ymwneud â'r swyddogaeth archwilio. Roedd hyn yn cynnwys sgiliau a thechnegau

cadeiryddio (a nodwyd fel datblygiad angenrheidiol gan Swyddfa Archwilio Cymru), datblygu polisi ac adolygiad. Datblygwyd rhestrau gwirio o faterion i'w hystyried wrth gynnal adolygiadau archwilio (Atodiad 1) a chwestiynau heriol allweddol (Atodiad 2).

1.4 Dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r swyddogaeth archwilio

1.4.1 Yn dilyn y cyfarfod dechreuol llwyddiannus a gynhaliwyd ar y cyd rhwng Cyd-gadeiryddion Archwilio ac Uwch Reolwyr yr Awdurdod yn Ionawr 2005, cynhaliwyd sesiwn arall ar y cyd yn Ionawr 2006 gan ganolbwyntio ar a) dealltwriaeth swyddogion o'r swyddogaeth archwilio, b) cynnwys archwilio wrth ddatblygu polisïau, c) rôl archwilio mewn diffinio blaenoriaethau corfforedig. Arweiniodd hyn at greu cynllun gweithredu ar gyfer y flwyddyn nesaf. Bwriedir cynnal sesiynau tebyg ar y cyd o leiaf unwaith y flwyddyn.

1.4.2 Yn ogystal, cynhaliwyd cyfarfodydd rhwng pob pâr o gyd-gadeiryddion a swyddogion priodol er mwyn helpu i gynllunio ymlaen ar gyfer rhaglenni gwaith archwilio.

1.4.3 Cynigwyd help i swyddogion gael gwell dealltwriaeth o brif egwyddorion archwilio a sut mae'n gweithio hefyd.

1.4.4 Gellir gweld y rhaglenni gwaith archwilio ar y fewnrwyd a'r rhyngrwyd ac fe'u cylchredir i'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Strategol a Prif Swyddogion bob 3 mis. Hefyd, diweddarir tudalennau gwe'r swyddogaeth Archwilio yn rheolaidd.

1.4.5 Nodwyd bod codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r swyddogaeth archwilio yn flaenoriaeth yng nghynllun gwasanaeth y Tîm Archwilio ar gyfer 2006-2007 a manylir ar hyn yn yr adran 'Edrych Ymlaen'.

1.5 Adolygiad o drefniadau archwilio

Y llynedd, cytunodd y Grŵp Cydlynol Cyd-gadeiryddion Archwilio y byddai adolygiad o effeithiolrwydd y broses archwilio a'r trefniadau cefnogi archwilio yn cael ei gynnal yn ystod 2005 - 2006 i nodi meysydd i'w gwella neu i'w newid. Mae rhan o'r adolygiad hwn yn gofyn am asesiad o effaith gwaith archwilio ar welliannau a newidiadau i wasanaethau a pholisïau'r Cyngor. Yn anffodus, nid ydym wedi cynnal yr adolygiad hwn hyd yma. Fodd bynnag, mae wedi'i nodi fel blaenoriaeth ar gyfer 2006 -2007 (fel y manylir yn yr adran 'Edrych Ymlaen').

1.6 Rhaglenni Gwaith ac Agendâu

1.6.1 Wrth i'r swyddogaeth archwilio o fewn yr awdurdod ddod yn fwy sefydledig ac wrth i'w hyder dyfu, mae rhaglenni gwaith yn cael eu harwain fwyfwy gan yr aelodau. Hefyd mae'r Grŵp Cydlynol Cyd-gadeiryddion Archwilio yn

cymryd rôl ragweithiol i symud ymlaen tuag at ddatblygu rhaglenni gwaith sy'n canolbwyntio ar y tymor hirach ac ar faterion pwysig. Fodd bynnag, mae pryderon bod agendâu presennol yn cynnwys gormod o eitemau ac nad yw llawer o'r eitemau a awgrymir gan y swyddogion yn flaenoriaethau y dylid eu hystyried mewn perthynas ag archwilio. Mae hyn wedi arwain at anawsterau cynhwysedd wrth i nifer o bwyllgorau gwrdd mwy nag unwaith y mis ac mae nifer o dasgluoedd byrdymor yn cael eu creu sy'n mynd â llawer o amser yr Aelodau a'r rheiny sy'n cefnogi'r broses. Mae hyn wedi golygu bod aelodau wedi methu â rhoi ystyriaeth angenrheidiol i rai materion. Mae rhai o'r rhesymau am hyn yn cynnwys:

- Dim digon o ystyriaeth i p'un a yw'r eitem yn addas i'w archwilio (gan Swyddogion ac Aelodau);
- Gormod o adroddiadau ac eitemau gwybodaeth sy'n arwain at argymhellion sy'n dweud 'nodi'r adroddiad';
- Canfyddiad rhai swyddogion bod raid i bob eitem gael ei archwilio cyn cael ei ystyried gan y Bwrdd Gweithredol;
- Gormod o eitemau'n cael eu cyfeirio'n ôl gan y Bwrdd Gweithredol;
- Diffyg dealltwriaeth cyffredinol am y swyddogaeth archwilio a dryswch ynghylch y trefniadau rheoli gwleidyddol.

* Er mwyn y gymhariaeth hon, mae 'adroddiad' yn cynnwys eitemau agenda ar bob fformat, gan gynnwys yn ysgrifenedig, ar lafar a chyflwyniadau.

1.7 Gwella ymgysylltiad y cyhoedd a phartneriaid ag archwilio

1.7.1 Cafwyd enghreifftiau cadarnhaol o ymgysylltiad y cyhoedd, yn arbennig mewn perthynas â materion megis:

- y Cynllun Comisiynu Pobl Hŷn (lle mae aelodau o'r cyhoedd wedi mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio Materion Cymdeithasol, Iechyd a Thai yn rheolaidd i roi eu barn yn uniongyrchol i'r aelodau yn y cyfarfodydd Archwilio)
- Morlyn Llwyneinion (lle cynhaliwyd cyfarfod Pwyllgor Archwilio'r Amgylchedd ac Adfywiad yn y Stiwt yn Rhos lle'r oedd nifer fawr o'r wasg a'r cyhoedd yn bresennol)

1.7.2 Yn ogystal, mae cynrychiolwyr o rai o'n sefydliadau partner ac asiantaethau allanol wedi cael gwahoddiad i fynychu a chymryd rhan mewn cyfarfodydd archwilio.

Mae hyn wedi cynnwys:

- Pennaeth Coleg Addysg Bellach Iâl a ddaeth i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ym Mehefin 2005 i drafod a dadlau ynghylch addysg ôl-16 yn Wrecsam a materion yn ymwneud â darpariaeth yng Ngholeg Iâl. Rhoddodd wahoddiad i'r Pwyllgor Archwilio Plant a Phobl Ifanc i ymweld â Choleg Iâl i weld y cyfleusterau a gwnaethpwyd hynny ym mis Tachwedd 2005.
- Bu i'r Pwyllgor Archwilio'r Amgylchedd ac Adfywiad gynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau allanol megis Llywodraeth Cynulliad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a Heddlu Gogledd Cymru mewn adolygiadau a gynhaliwyd gan y Pwyllgor.
- Mae cynrychiolwyr o Heddlu Gogledd Cymru wedi mynychu'r Pwyllgor Archwilio Llywodraeth a Pholisïau Corfforedig yn rheolaidd hefyd i drafod materion yn ymwneud â'r cynllun wardeiniaid cymdogaethol.
- Ers Ionawr 2006, fel rhan o'r adolygiad o addysg uwchradd gwahoddwyd pob pennaeth uwchradd yn Wrecsam i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio Plant a Phobl Ifanc i ddadlau ynghylch materion yn ymwneud â chyrhaeddiad addysgol.

1.7.3 Cynhaliwyd cyfarfodydd ac ymweliadau ar y cyd hefyd rhwng y Pwyllgor Archwilio Materion Cymdeithasol, Iechyd a Thai a'r Bartneriaeth Tenantiaid ac Aelodau.

1.7.4 Hefyd, aeth y tîm archwilio i gyfarfod â chlercod y cynghorau cymuned ym Mai 2006 i drafod sut i weithio gyda'n gilydd i helpu archwilio i wneud gwell cysylltiadau â chymunedau lleol. Cytunwyd y dylid dosbarthu rhaglenni gwaith archwilio at glercod cynghorau cymuned yn rheolaidd a chaiff y rhain eu hyrwyddo yng nghyfarfodydd y cynghorau cymuned.

1.7.5 Hefyd mae'r tîm archwilio wedi cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda swyddogion gwasg y Cyngor i roi cyhoeddusrwydd i'r prif faterion a ystyrir mewn archwiliadau.

1.7.6 Mae gwybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor ac mae'n cynnwys aelodaeth y pwyllgor, rhaglenni gwaith, newyddlenni, cwestiynau a ofynnir yn aml a chysylltiadau i gofnodion ac agendâu'r pwyllgorau.

1.7.7 Mae sut i gynnwys y cyhoedd mewn archwilio yn fater anodd yn genedlaethol ac yn lleol. Hefyd mae angen gwneud mwy o waith i gael mwy o ymgysylltiad ag asiantaethau partner ac archwiliadau allanol.

1.8 Technoleg gwybodaeth

1.8.1 Yn ystod 2003 - 2004, fel rhan o'i adolygiad o drefniadau archwilio'r Cyngor, argymhellodd y Comisiwn Archwilio y dylai aelodau wneud gwell defnydd o dechnoleg gwybodaeth ac y dylid rhoi gwell cefnogaeth. Mae gan 50 o'r 52 Aelod gyfrifiaduron bellach, gyda chyfleusterau e-bost a mynediad at y

rhyngrwyd trwy gysylltiadau band eang, sydd wedi arwain at well sianeli cyfathrebu.

1.9 Toriadau cyllidebol

Gan ei bod yn ofynnol i'r Adran Cyllid a Gweinyddiaeth arbed arian i gyrraedd lefelau cytunedig yng nghyllideb blwyddyn ariannol 2005/06, cafwyd gostyngiad o £20,000 yn y gyllideb archwilio.

1.10 Rhwydwaith Swyddogion Archwilio Gogledd Cymru

1.10.1 Mae gwaith trwy rwydwaith Swyddogion Archwilio Gogledd Cymru (Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam) wedi gwneud cynnydd. Mae'r grŵp yn cwrdd yn rheolaidd i drafod materion a phroblemau cyffredin ac i rannu syniadau ac arfer da yn ymwneud â'r swyddogaeth archwilio.

1.10.2 Un o'r darnau pwysicaf o waith oedd datblygu Fframwaith Gwerthuso Archwilio ar gyfer Cymru gyfan, lle y chwaraeodd Wrecsam rôl flaenllaw gyda Gwynedd a Sir Ddinbych. Lansiwyd hwn yn ystod 2005 ac fe'i defnyddir o fewn yr awdurdod hwn er mwyn helpu i gynnal yr adolygiad o drefniadau archwilio a drafodir yn fwy manwl yn yr adran 'Edrych ymlaen'.

PWYLLGOR ARCHWILIO PLANT A PHOBL IFANC

AELODAETH 2005/2006

Cyd-gadeiryddion (2):	Mrs Shân Wilkinson OBE	J A Kelly KSG
Aelodau (11):	Paul Blackwell	M G Morris
	Ron Davies	Colin Powell
	T Alan Edwards	D N Price
	G W Griffiths	I Roberts
	J M Humberstone	Christopher M Stubbs
	George D James	
Cynrychiolwyr yr Eglwys / Rhieni Lywodraethwyr (4):	Mr B Evans	Mrs J A Whitley
	Mrs R Price	Mrs A Suter
Cydlynydd Swyddogion Arweiniol:	Karen Mills Swyddog Archwilio	

CYLCH GORCHWYL

Gofal cymdeithasol gan gynnwys amddiffyn plant; plant mewn angen, iechyd plant, plant ag anableddau; iechyd meddwl plant a phobl ifanc; plant y gofelir amdanynt; maethu a mabwysiadu; gwasanaethau integredig i deuluoedd a phlant;
Addysg yn cynnwys darpariaeth y blynyddoedd cynnar, addysg gynradd, uwchradd ac ôl-16; gwasanaethau cysylltiedig gan gynnwys anghenion arbennig, cludiant ysgol, prydau ysgol, adeiladau/offer ysgol, derbyniadau a gwobrau myfyrwyr.
Gwasanaeth Ieuenctid a Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid

GWYBODAETH BELLACH

1. Roedd y Pwyllgor Archwilio Plant a Phobl Ifanc yn cynnwys 13 o aelodau (gan gynnwys Cyd-gadeiryddion), yn ogystal â 4 cynrychiolydd yr eglwys/rhieni lywodraethwyr.

2. Bu i'r Pwyllgor gyfarfod 11 o weithiau yn ystod y 12 mis (Mehefin 05 – Mai 06).

3. Roedd presenoldeb ym mhob cyfarfod yn 8 o aelodau'r cyngor allan o 13 posibl ar gyfartaledd (sy'n hafal i 60%).

4. Yn ogystal, cynhaliwyd cyfanswm o 13 o gyfarfodydd tasgluoedd byrdymor (Mehefin 05 - Mai 06.)

5. Prif ffocws gwaith y Pwyllgor Archwilio dros y flwyddyn ddiwethaf oedd cyrhaeddiad addysgol sef y brif flaenoriaeth gorfforedig yn ystod y cyfnod hwn. Nodwyd bod angen targedu archwiliadau ar gyrhaeddiad ar lefel uwchradd, yn arbennig yng nghyfnod allweddol 4. Nodwyd hefyd ei fod yn faes ffocws allweddol ar gyfer 2007 – 2008.

Roedd materion yn gysylltiedig ag addysg a adolygwyd gan y Pwyllgor Archwilio yn cynnwys:

- Polisi cludiant ysgolion
- Anghenion addysgol arbennig
- Darpariaeth addysgol
- Derbyniadau ysgolion
- Y strategaeth addysg uwchradd
- Perfformiad addysgol gan gynnwys canlyniadau arholiadau
- Addysg plant wedi'u gwahardd

Yn ogystal

- Mynychodd benaethiaid uwchradd a rhieni lywodraethwyr gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio Plant a Phobl Ifanc i helpu gyda thrafodaethau yn ymwneud â pherfformiad a chyrhaeddiad addysgol.
- Mynychodd Bennaeth Coleg Addysg Bellach Iâl y Pwyllgor Archwilio Plant a Phobl Ifanc i drafod a dadlau ynghylch addysg ôl-16 yn Wrecsam a materion yn ymwneud â darpariaeth yng Ngholeg Iâl. Rhoddodd wahoddiad i'r Pwyllgor Archwilio Plant a Phobl Ifanc ymweld â Choleg Iâl i weld y cyfleusterau a digwyddodd hyn ym mis Tachwedd 2005.

Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cynnal nifer o adolygiadau mwy hirdymor a chryf trwy gyfarfodydd y tasgluoedd byrdymor. Roedd 4 o adolygiadau o grwpiau tasgluoedd byrdymor y Pwyllgor Archwilio Plant a Phobl Ifanc ar waith yn ystod y cyfnod hwn, sef cludiant ysgolion, anghenion addysgol arbennig, darpariaeth addysgol a derbyniadau ysgolion.

- Gorffennodd **Y Tasglu Byrdymor Cludiant Ysgolion** eu hadolygiad 2 flynedd ym Mehefin 2005. Cynhaliwyd y 4 cyfarfod olaf rhwng Ebrill -

Mehefin 2005 a chyflwynwyd adroddiad terfynol i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf 2005 ac i'r Bwrdd Gweithredol ym Medi 2005. Roedd hwn yn adolygiad archwilio trylwyr a chadarn. Er bod y Pwyllgor Archwilio yn cefnogi'r casgliadau a gyrhaeddwyd gan y tasglu byrdymor, penderfynodd y Bwrdd Gweithredol oedi eu penderfyniad nes i'r Pwyllgor Archwilio gynnal adolygiad ychwanegol o dderbyniadau a chynhwysedd ysgolion (gweler isod).

- Gorffennodd **Y Tasglu Darpariaeth Addysgol** eu hadolygiad 6 mis yng Ngorffennaf 2005 a chyflwynwyd adroddiad i'r Bwrdd Gweithredol ym Medi 2005. Cytunodd y Bwrdd Gweithredol â'r casgliadau a gyrhaeddwyd gan y tasglu byrdymor gan gynnwys yr egwyddorion a'r meini prawf allweddol a nodwyd. Arweiniodd hyn at sefydlu Tîm Adolygu Cynradd i gynnal gwaith a ganolbwyntiai ymhellach ar y maes hwn.

- Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Tasglu Byrdymor **Anghenion Addysgol Arbennig** Pwyllgor Archwilio Plant a Phobl Ifanc ar 2^{il} Maawrth 2005. Cynhaliwyd 7 cyfarfod arall rhwng Ebrill - Medi 2005, 5 o'r rhain rhwng Mehefin - Medi a chyflwynwyd adroddiad terfynol i'r Pwyllgor Archwilio ar 27ain Medi 2005 a'r Bwrdd Gweithredol yn Rhagfyr 2005. Cytunodd y Bwrdd Gweithredol ag argymhellion y Pwyllgor Archwilio ac arweiniodd hyn at roi prosesau ar waith i ailffocysu adnoddau ar y plant sydd â'r angen mwyaf gan alluogi ymyrraeth gynnar a lleihau nifer y datganiadau sydd eu hangen yn ddiweddarach; system dryloyw, deg a chyfiawn o ddirprwyo cyllid penodol i nodi ysgolion ar sail anghenion y disgyblion a chreu Panel Anghenion Cymhleth i sicrhau trefniadau ariannu a chyfrifoldebau teg mewn perthynas â darpariaeth gwasanaethau meddygol i ddisgyblion yn ysgolion Wrecsam (e.e. therapi lleferydd, seicotherapi a darpariaeth offer meddygol arbenigol).

- Yn Ionawr 2006 sefydlodd y Pwyllgor Archwilio Plant a Phobl Ifanc Dasglu Byrdymor i gynnal adolygiad o **Dderbyniadau Ysgolion.** Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y grŵp hwn ar 16^{eg} Mawrth 2006. Cynhaliwyd 5 cyfarfod a chyflwynwyd yr adroddiad terfynol i'r Pwyllgor Archwilio ar 21^{ain} Mehefin 2006 a'r Bwrdd Gweithredol ar 21^{ain} Gorffennaf 2006. Er bod y Bwrdd Gweithredol wedi cydnabod y gwaith a wnaethpwyd, bu iddynt oedi eu penderfyniad nes i'r cyfarwyddyd terfynol mewn perthynas â ffigurau cynhwysedd ysgolion gyrraedd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Felly, rydym yn dal i aros am ganlyniad yr adolygiad hwn.

6. O ran elfennau an-addysgiadol y gwaith a gynhaliwyd gan y Pwyllgor, archwiliwyd y materion canlynol:-
    - Gwasanaeth ieuenctid
    - Addysg plant y gofelir amdanynt
    - Maethu a mabwysiadu
    - Strategaeth chwarae a datblygu chwarae
    - Fframwaith Atebolrwydd ar gyfer Gwasanaethau Teuluoedd a Phlant
    - Sgiliau'r gweithlu
    - Gwasanaethau gofal plant preswyl
    - Darparu gwasanaethau lleol

- Gweithgareddau gwasanaeth i blant a phobl ifanc (Gofal Cymdeithasol)

Mwynhaodd aelodau'r pwyllgor ymweliad â Chanolfan Deulu Idwal yn Ebrill 2006 lle cafwyd cyfle i weld y math o waith sy'n digwydd yng Nghanolfannau Teuluoedd Wrecsam.

PWYLLGOR ARCHWILIO LLYWODRAETH A PHOLISÏAU CORFFOREDIG

AELODAETH 2005/2006

Cyd-gadeiryddion (2)	June Fearnall	R D Prince
Aelodau (11):	Paul Blackwell	M G Morris
	Judith C Connolly	M H R Moysen
	R. Mark Davies	Colin Powell
	J.M Humberstone	I Roberts
	M.C. King	David Rogers
		Christopher M Stubbs
Cydlynydd Swyddogion Arweiniol:	Keith Lea Rheolwr Archwilio	

CYLCH GORCHWYL

- **Polisi Strategol Cyffredinol** gan gynnwys: cynllun gwella; strategaeth gymunedol; strategaeth gorfforedig; rheoli perfformiad; eiddo; rheoli egni ac asedau; cyfathrebiadau/perthynas â'r cyhoedd; mynediad y cwsmeriaid at wasanaethau; caffaeliad; trosedd ac anhrefn; niwsans ieuenctid, materion yn ymwneud â'r heddlu
- **Personél** gan gynnwys: cyfle cyfartal, materion staffio, iechyd a diogelwch
- **TG a thelegyfathrebu**
- **Y gyfraith** gan gynnwys: materion cyfreithiol; hyfforddiant a datblygiad aelodau, pwyllgorau a gwasanaethau maerol; cofrestru a gwasanaethau'r crwner.

GWYBODAETH BELLACH

1. Roedd y Pwyllgor Archwilio Llywodraeth Gorfforedig a Pholisi yn cynnwys 13 o aelodau (gan gynnwys cyd-gadeiryddion).

2. Bu i'r pwyllgor gwrdd 14 o weithiau yn ystod y 12 mis (Mehefin 05 – Mai 06).

3. Roedd presenoldeb ym mhob cyfarfod yn 10 aelod o 13 posibl ar gyfartaledd (sy'n hafal i 75%).

4. Mae gan y Pwyllgor Archwilio hwn gylch gorchwyl eang ac mae'n ymdrin â nifer o'r polisïau cyffredinol sy'n effeithio ar yr Awdurdod a hefyd yn cynnwys eitemau nad ydynt yn addas i'w cynnwys mewn Pwyllgorau Archwilio eraill. Adlewyrchir hyn yn yr ystod amrywiol o eitemau gwaith a archwilir yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys :-

- Adolygiad o'r cynllun wardeiniaid cymdogaethol (parhad ers y flwyddyn flaenorol)
- Monitro cynnydd yn erbyn darpariaeth canlyniadau'r adolygiad gwerth gorau o gaffaeliad
- Adroddiadau monitro personél bob tri mis gan gynnwys salwch, swyddi gwag, lefelau cyflogaeth a damweiniau, manylion swyddi newydd a grëwyd ac ati.
- Adolygiad o effeithiolrwydd cynlluniau cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd amrywiol yn yr Awdurdod ac ystyried Strategaeth y Bobl ddrafft
- Polisïau gwrth-dwyll a llygredigaeth a pholisïau cosbau twyll budd-daliadau
- Adolygiad o ddefnydd y Cyngor o ymgynghorwyr allanol
- Parhau i adolygu trefniadau mewn perthynas â niwsans ieuenctid
- Bugeiliaid strydoedd Wrecsam
- Monitro'r fframwaith Effeithiolrwydd Corfforedig yn barhaus
- Materion yn ymwneud â datblygu a chyfathrebu ag aelodau, yn arbennig mewn perthynas â'r siarter aelodau a chyfleusterau TGCh.
- Adolygiad o effeithiolrwydd polisi Canu Cloch y Cyngor
- Adolygu'r cynnydd a wneir mewn perthynas â blaenoriaeth gorfforedig y Cyngor i atgyfnerthu Cydlyniad Cymunedol.
- Monitro cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu Gweithwyr Ymfudol
- Ystyried y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol cyn ei gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol
- Monitro cynnydd yn erbyn darpariaeth y Safon Cydraddoldeb Cyffredinol
- Rhoi sylwadau am newidiadau awgrymedig i ddirprwyaeth swyddogion cyn i'r Cyngor ei ystyried
- Monitro cynnydd yn erbyn y mentrau amrywiol mewn perthynas â ffocws cwsmeriaid, yn arbennig y "Siop Un Stop / Y Ganolfan Alwadau."
- Ystyried Adroddiad Blynyddol Rheoli Risg yr Awdurdod

5. Fel y gellir gweld, mae gwaith y Pwyllgor wedi canolbwyntio'n bennaf ar gymysgedd o:
   - Monitro ac adolygu perfformiad e.e. salwch, damweiniau, targedau caffaeliad, wardeiniaid cymdogaethol ac ati.
   - Monitro cynnydd mewn perthynas â nifer o flaenoriaethau a mentrau allweddol yr Awdurdod e.e. effeithiolrwydd corfforedig, cynllun gweithredu caffaeliad, cydlyniad cymunedol, safon cydraddoldeb cyffredinol ac ati.
   - Adolygiadau penodol o feysydd sy'n achosi pryder e.e. defnyddio ymgynghorwyr allanol

6. Mewn perthynas â'r elfen adolygiad penodol y gwaith mae nifer o dasgluoedd byrdymor wedi gweithredu i gefnogi gwaith y pwyllgor archwilio. Mae dau grŵp sef y Tasglu Byrdymor Niwsans Ieuenctid a'r Tasglu Byrdymor Defnydd o Ymgynghorwyr wedi cyfarfod wyth o weithiau i gyd yn ystod y cyfnod.

7. Mae'r Pwyllgor wedi parhau i weithio'n agos gyda nifer o sefydliadau allanol. Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi bod yn bartner allweddol yn yr adolygiad o'r cynllun wardeiniaid cymdogaethol, o ran darparu gwybodaeth a chynorthwyo i ddatblygu opsiynau posibl ar gyfer mynd i'r afael â throsedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, lleihau'r ofn o drosedd a rhoi sicrwydd i gymunedau yn y ffordd orau. Yn ogystal, derbyniodd y pwyllgor wybodaeth a chyflwyniad gan Gydlynydd Bugeiliaid Strydoedd Wrecsam er mwyn helpu aelodau i bennu argymhelliad o ran a ddylai'r Awdurdod gefnogi'r cynllun mewn rhyw ffordd.

PWYLLGOR ARCHWILIO'R AMGYLCHEDD AC ADFYWIAD

AELODAETH 2005/2006

Cyd-gadeiryddion (2) :	Malcolm Williams	Ron Davies
Aelodau (11) :	A C Bailey	Geoff Lowe
	T. Alan Edwards	Paul H. Pemberton
	Terry Evans	R.D.Prince
	Mrs. June Fearnall	David Rogers
	K H Hett	Michael Williams
	Lloyd Kenyon	
Cydlynydd Arweiniol: **Swyddogion**	Keith Lea Rheolwr Archwilio	

CYLCH GORCHWYL

- **Cynllunio** gan gynnwys materion cynllunio lleol, rhanbarthol a strwythurol; rheoli adeiladau, cadwraeth
- **Rheoli gwastraff** gan gynnwys casglu sbwriel; glanhau strydoedd, gwaredu gwastraff; ailgylchu
- **Priffyrdd** gan gynnwys cynnal a chadw a gwella priffyrdd a llwybrau troed; goleuadau stryd
- **Cludiant** gan gynnwys diogelwch y ffyrdd; cludiant cyhoeddus; meysydd parcio
- **Diogelu'r Cyhoedd** gan gynnwys hybu iechyd; diogelwch bwyd; safonau masnach; gwasanaeth wardeiniaid anifeiliaid.
- **Datblygiad Economaidd** gan gynnwys datblygiad ac adfywiad trefol a gwledig; twristiaeth; cefnogi busnes.
- **Llyfrgelloedd**
- **Diwylliant** gan gynnwys hamdden i bob oedran, canolfannau hamdden a chyfleusterau chwaraeon; celf ac adloniant; amgueddfeydd; datblygu chwaraeon

GWYBODAETH BELLACH

1. Roedd y Pwyllgor Archwilio'r Amgylchedd ac Adfywiad yn cynnwys 13 o aelodau (gan gynnwys cyd-gadeiryddion)

2. Bu i'r Pwyllgor gyfarfod 18 o weithiau yn ystod y 12 mis diwethaf (Mehefin 05 – Mai 06).

3. Roedd presenoldeb ym mhob cyfarfod yn 10 aelod o 13 posibl ar gyfartaledd (sy'n hafal i 77%).



4. Ymddengys mai gan y pwyllgor archwilio hwn y mae'r cylch gorchwyl ehangaf, ac efallai mai dyna pam y bu iddo gyfarfod mwy o weithiau nac unrhyw bwyllgor arall yn ystod y cyfnod hwn. Gwelir y cylch gorchwyl eang hwn yn yr ystod amrywiol o faterion a ystyriwyd gan Bwyllgor Archwilio'r Amgylchedd ac Adfywiad yn ystod y cyfnod gan gynnwys:

- Datblygiad y Strategaeth Dreftadaeth ddrafft
- Canolfannau cymunedol
- Ariannu neuaddau pentref
- Darparu aelod llywio ar yr opsiynau i roi cyhoeddusrwydd ac i ymgynghori ynghylch paratoad y Cynllun Datblygu Lleol
- Ystyried y Strategaeth Meysydd Parcio ddrafft
- Ystyried y llwybrau mwyaf priodol ar gyfer adrannau gogleddol a deheuol ffordd gyswllt Ystad Ddiwydiannol Wrecsam
- Monitro cynnydd a pherfformiad mewn perthynas â chynllun ailgylchu / casglu sbwriel y Cyngor
- Goblygiadau posibl y ddeddfwriaeth arfaethedig mewn perthynas ag ysmygu mewn mannau cyhoeddus
- Ystyried polisi gweithle di-fwg ddrafft y Cyngor
- Ystyried y Cynllun 3 blynedd drafft ar gyfer Llyfrgelloedd a Gwasanaethau Gwybodaeth
- Darparu arweiniad gan Aelodau am y broses o ddatblygu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ar gyfer Bwrdeistref Sirol Wrecsam.
- Ystyried opsiynau mewn perthynas â gwaredu cyrff marw
- Ystyried opsiynau i fodloni gofynion deddfwriaethol newydd mewn perthynas â gollyngiadau mercwri yn yr amlosgfa
- Adolygu cludiant cyhoeddus cymorthdaledig anstatudol
- Ystyried ffordd ymlaen i ymdrin â materion yn ymwneud â charthfosydd cyhoeddus, draeniau preifat, draenio dŵr ffo, draenio priffyrdd a draenio tir.
- Adolygu materion yn ymwneud â safleoedd tirlenwi llygredig y Cyngor
- Ystyried y cynigion i ailstrwythuro elfen gorfodaeth Adran Diogelu'r Cyhoedd
- Ystyried Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd Prif Ffrydio'r Cyngor ar gyfer 2005/6

- Ceisio arweiniad gan Aelodau ynghylch p'un a ddylid ymgorffori Gwasanaeth Llyfrgelloedd Ysgolion mewn adolygiad ehangach o wasanaeth llyfrgell cyffredinol y Cyngor
- Ceisio safbwyntiau/sylwadau aelodau am welliannau a wnaed i'r amgylchedd yn y blynyddoedd diwethaf a gwneud cais am arweiniad ar beth y dylid ei flaenoriaethu yn y dyfodol
- Ystyried yr opsiynau sy'n agored i'r Cyngor mewn perthynas â gweithrediad parcio wedi'i ddadgriminaleiddio
- Ystyried effaith posibl cyfuno Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Croeso Cymru ac ELWa
- Rhoi diweddariad o gynnydd cynigion gan Gronfa Adfywio Ffisegol Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Ystyried ymateb dogfen ymgynghorol mewn perthynas â chynorthwyo cyfraddau busnes yng Nghymru
- Aelodau'n derbyn gwybodaeth yn ymwneud â rheoli, rolau a pholisïau mewn perthynas â chynnal a chadw a phlannu coed
- Nodi safle presennol, materion ac opsiynau ar gyfer camau gweithredu adferol mewn perthynas â morlyn Llwyneinion, Rhos
- Datblygu polisïau i sicrhau system archwilio strwythuredig mewn perthynas â ffyrdd, troedffyrdd a llwybrau beicio
- Datblygu polisïau mewn perthynas â rheoli blodau a theyrngedau ar ochr y ffordd yn dilyn damweiniau angheuol ar ffyrdd
- Monitro darpariaeth y Strategaeth Datblygiad Economaidd 2005/6 ac ystyried y strategaeth ddrafft ar gyfer 2006/9
- Adolygu cynigion i sefydlu Uned Strydlun
- Ystyried pa ardaloedd i'w henwebu fel mannau agored dynodedig dan gynllun Caeau Owain Glyndŵr (o restrau a ddarperir gan aelodau lleol)

5. Fel y gwelir, bu i'r Pwyllgor hwn gyfarfod yn amlach nag unrhyw bwyllgor arall ac ystyriodd ystod amrywiol o eitemau agenda. Yn ogystal, bydd angen gwneud gwaith pellach ar nifer sylweddol o'r eitemau yn y flwyddyn sydd i ddod, naill ai gan fod gwaith yr adolygiad heb ei orffen, er enghraifft yr adolygiad Strydlun, neu oherwydd bod y pwyllgor wedi cymryd rôl fonitro, er enghraifft y cynllun ailgylchu.

6. Er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith hwn, sefydlwyd dau dasglu byrdymor, sef Adfywiad Gwledig a Chludiant Cyhoeddus Cymorthdaledig Anstatudol a bu iddynt gyfarfod saith o weithiau yn ystod y cyfnod hwn. Yn ogystal, sefydlwyd Tasglu Byrdymor ar gyfer Strydlun ym Mai 2006, er y bydd swm mawr o'r gwaith hwn yn cael ei gyflawni yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

7. Ymwelodd y Pwyllgor â safleoedd er mwyn cael gwell dealltwriaeth o rai o'r materion a adolygir. Yn Ebrill 2005, trefnwyd ymweliad â sied gwastraff gwyrdd y Cyngor ar Ystad Ddiwydiannol Wrecsam ac i felin bapur Shotton. Yn ogystal, yn Rhagfyr 2005 aeth aelodau ar daith i drawstoriad o ganolfannau cymunedol y Cyngor yn ogystal â nifer o neuaddau pentref a gynhelir yn breifat i gynorthwyo yn eu hadolygiad o gyllid canolfannau cymunedol a neuaddau pentref.

Pwyllgor Archwilio AacA

Dadansoddiad o fathau o adroddiadau : Ebrill 05 – Mai 06*

(Ystyriwyd cyfanswm o 52 o adroddiadau)

(*Er mwyn y gymhariaeth hon, mae 'adroddiad' yn cynnwys eitemau agenda ar bob fformat, gan gynnwys adroddiadau a chyflwyniadau ysgrifenedig a llafar



PWYLLGOR ARCHWILIO CYLLID A PHERFFORMIAD

AELODAETH 2005/2006

Cyd-gadeiryddion (2):	J J Colbert	D Broderick MBE
Aelodau (11):	Nick S. Colbourne	F.A.Nichols
	J.W.Coleman, OBE	Mrs Gwyneth Roberts
	Judith Connolly	Philip Michael Shone
	F.K. Edwards	Mrs S.
	M.J.Edwards	Wilkinson, OBE
	George D. James	Michael Williams
Cydlynydd Swyddogion Arweiniol:	Keith Lea Rheolwr Archwilio	

CYLCH GORCHWYL

- **Cyllid:** Agweddau ariannol unrhyw wasanaeth, prosiect neu swyddogaeth; sefyllfa ariannol gyffredinol ac adnoddau'r Cyngor; strategaethau buddsoddi, benthyca ac yswiriant corfforedig y Cyngor; materion ariannol unrhyw fentrau, partneriaethau neu gwmnïau y mae'r Cyngor yn rhan ohonynt
- **Archwilio.** Hyrwyddo rheolaethau mewnol, creu diwylliant gwrth-dwyll a throsolwg o reoliadau ariannol; monitro'r archwilwyr gan gynnwys yr adolygiad o gynlluniau archwilio, penodi archwiliwr allanol, trosolwg o berfformiad pob archwiliwr a chyfathrebu â'r archwiliwr allanol; monitro'r Cyngor, gan gynnwys helpu i gynnal perthnasau rhwng archwilwyr a staff, a derbyn y Llythyr Archwilio Blynyddol i Aelodau gan yr archwiliwr allanol cyn ei gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol.
- **Rheoli risg**
- **Rheoli perfformiad**

GWYBODAETH BELLACH

1. Roedd y Pwyllgor Archwilio Cyllid a Pherfformiad yn cynnwys 13 aelod (gan gynnwys cyd-gadeiryddion).

2. Bu i'r Pwyllgor gyfarfod 13 o weithiau yn ystod y 12 mis (Mehefin 05 – Mai 06).

3. Roedd presenoldeb ym mhob cyfarfod yn 7 aelod o 13 posibl ar gyfartaledd (sy'n hafal i 54%).

4. Mae llawer o waith y pwyllgor hwn yn ymwneud â rheolaethau a gwybodaeth ariannol fewnol, sy'n hanfodol i sicrhau bod Aelodau'n cyflawni eu cyfrifoldebau i sicrhau bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â deddfwriaethau a rheoliadau ariannol. Estynnwyd cylch gorchwyl y Pwyllgor ym Mai 2005 i ymgymryd â rôl oruchwylio o ran monitro perfformiad gwasanaethau'r Cyngor ac i gyflawni ei flaenoriaethau.

5. Mae gwaith a wnaethpwyd gan y Pwyllgor Archwilio hwn yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

    - Adolygu prosesau cyllidebau 2004/5 a 2005/6 i sicrhau bod ymglymiad a mewnbwn Aelodau yn cael ei gynyddu a'i fod yn brydlon
    - Monitro datblygiad ac effeithiolrwydd trefniadau rheoli prosiect, yn arbennig y Pecyn Offer Rheoli Prosiect a'r defnydd a wneir ohono mewn prosiectau ysgolion presennol
    - Asesu cydymffurfiad Is-adran Archwilio Mewnol y Cyngor yn erbyn Côd Ymarfer CIPFA 2003.
    - Ystyried Cynllun Gwella 2005/6
    - Ystyried Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2004/5
    - Ystyried dogfen ymgynghori mewn perthynas â Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella adolygedig
    - Ystyried adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru ar Brosesau Ariannol Craidd yr Awdurdod ac agweddau ariannol Llywodraeth Gorfforedig
    - Gwybodaeth yn ymwneud â rhagolygon ariannol ar gyfer 2006/9
    - Ystyried yr adroddiad Rheoli Trysorlys 2004/5
    - Trafod goblygiadau'r newidiadau arfaethedig i reoliadau ariannol y Cyngor, ac yn arbennig y rheiny sy'n ymwneud â chyllidebau dirprwyedig ysgolion
    - Ystyried adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar drefniadau archwilio mewnol y Cyngor
    - Ymgymryd â monitro perfformiad mewn perthynas â lefel yr ôl-ddyledion rhent gan denantiaid y Cyngor
    - Ystyried Cynllun Rheoliadol 2005/6 a gynigir gan Swyddfa Archwilio Cymru

- Ystyried canlyniadau arolwg a gynhaliwyd yn 2004/5 trwy banel "Llais y Bobl" y Cyngor mewn perthynas â chael atborth i gynorthwyo'r Cyngor i "ddeall eu cwsmeriaid yn well"
- Ystyried dogfen ymgynghori LlCC mewn perthynas â Fframwaith Rheoli Perfformiad 2006/7
- Ystyried Adroddiad Blynyddol Rheolwr Perthnasau 2004/5
- Ystyried Strategaeth Rheoli Trysorlys 2006/7 cyn ei gyflwyno i'r Cyngor
- Ystyried dogfen ymgynghori LlCC mewn perthynas â Setliadau Refeniw a Chyfalaf Tair Blynedd ar gyfer Awdurdodau Lleol yng Nghymru
- Ymchwilio i brosesu problemau o fewn yr Is-adran Budd-daliadau Tai a monitro lefelau perfformiad
- Ystyried Strategaeth Archwilio Fewnol a Chynllun Archwilio 2006/7
- Adroddiadau monitro bob tri mis mewn perthynas â pherfformiad ac adolygiadau archwilio mewnol ac ymchwiliadau

6. Yn ogystal, sefydlwyd Tasglu Byrdymor Monitro Perfformiad ym Medi 2005 i ymchwilio i feysydd penodol a oedd yn achosi pryder iddyn nhw neu i amlygu materion tebyg naill ai i'r pwyllgor archwilio priodol neu'r Bwrdd Gweithredol. Bu i'r grŵp gyfarfod ddwywaith yn ystod y cyfnod a bydd yn cyfarfod bob tri mis yn y flwyddyn nesaf. Mae sefydlu'r grŵp hwn wedi golygu bod Aelodau wedi rhoi mewnbwn a bod gwybodaeth am berfformiad wedi'i archwilio llawer ynghynt (oddeutu tair neu bedair wythnos ar ôl diwedd y cyfnod, yn hytrach nag wyth i ddeg wythnos fel yn y trefniant blaenorol.)

PWYLLGOR ARCHWILIO MATERION CYMDEITHASOL, IECHYD A THAI

AELODAETH 2005/2006

Cyd-gadeiryddion (2)	J W Coleman OBE	Mrs J M Lowe
Aelodau (11)	A C Bailey	K H Hett
	J J Colbert	P Jeffares
	Gerry M Craddock	F A Nichols
	F K Edwards	P M Shone
	Terry Evans	Malcolm Williams
	D J Griffiths	
Cydlynydd Swyddogion Arweiniol:	Karen Mills Swyddog Archwilio	

CYLCH GORCHWYL

- **Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion:** gan gynnwys: asesu; gofal cartref, preswyl a dydd; oedolion ag anawsterau dysgu ac/neu gorfforol; iechyd meddwl; camddefnyddio cyffuriau/alcohol; hawliau lles; pryd ar glud; therapi galwedigaethol
- **Tai** gan gynnwys: dyraniadau; casglu rhent; ôl-ddyledion; tai gwag; cynnal a chadw a gwelliannau; digartrefedd; lletyau cysgodol; safleoedd teithwyr; galwad gofal.
- **Iechyd** gan gynnwys hybu iechyd materion y GIG/Bwrdd Iechyd Lleol, iechyd, gofal cymdeithasol a lles.

GWYBODAETH BELLACH

1. Roedd y Pwyllgor Archwilio Materion Cymdeithasol, Iechyd a Thai yn cynnwys 13 o aelodau (gan gynnwys cyd-gadeiryddion)

2. Bu i'r Pwyllgor gyfarfod 12 o weithiau yn ystod y 12 mis diwethaf (Mehefin 05 – Mai 06)

3. Roedd presenoldeb ym mhob cyfarfod yn 9 aelod o 13 posibl ar gyfartaledd (sy'n hafal i 67%).

4. Mae gan y Pwyllgor Archwilio hwn gylch gorchwyl eang, a adlewyrchir yn yr ystod amrywiol o faterion a archwilir yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, yn gyffredinol, roedd mwyafrif o waith y Pwyllgor hwn cyn 2005 yn canolbwyntio ar y gwasanaethau cymdeithasol a thai. Yn ystod 2005/2006 bu'r Pwyllgor yn archwilio nifer o eitemau'n gysylltiedig ag iechyd a lles yn fwy gweithredol gan gynnwys y Strategaeth Pobl Hŷn, y Cynllun Gweithredu Maeth a'r Cynllun Gweithredu Ymarfer Corff

5. Mae materion a ystyriwyd gan y Pwyllgor Archwilio yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:-

   - Adolygiad o Bris Teg am Ofal dros nifer o fisoedd a arweiniodd at ddefnyddio Model Pris Teg am Ofal fel dull o bennu lefelau ffioedd (yn amodol ar adnoddau a oedd ar gael) a chynyddu ffioedd cartrefi gofal i bobl hŷn a phobl iau ag anableddau corfforol o fewn y gyllideb cyfyngiad ariannol.
   - Y Cynllun Comisiynu i wasanaethau gofalwyr a arweiniodd at y Bwrdd Gweithredol yn cytuno i fabwysiadu'r broses gomisiynu arfaethedig i bob gwasanaeth i gefnogi gofalwyr cefnogi o 2006-7.
   - Adolygiad o ganlyniadau'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles
   - Ariannu'r gwasanaeth digartrefedd. Yn dilyn yr adolygiad, awgrymodd Aelodau y dylid ymweld â'r hostel Achub y Teulu ac mae hyn wedi'i drefnu ar gyfer Medi 2006.
   - Adolygiad o eiddo sy'n anodd eu gosod. Cynhaliwyd yr adolygiad hwn dros nifer o fisoedd wrth i'r Aelodau weld yr eiddo ac ystyried yr opsiynau'n drylwyr cyn penderfynu ar argymhellion. Cytunodd y Bwrdd Gweithredol ag argymhellion y pwyllgor.
   - Rhaglen cyfalaf tai
   - Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion
   - Adolygiad o Feini Prawf Cymhwyster. Yn dilyn adolygiad y pwyllgor, cafodd eu hargymhellion eu bwydo i'r broses cynllunio cyllidebau ar gyfer 2006/7
   - Amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed rhag camdriniaeth
   - Adolygu Gwasanaethau Adeiladu Tai
   - Cynllun Comisiynu i Ofal Cymdeithasol Pobl Hŷn a arweiniodd at argymhelliad i gefnogi'r cynllun a gytunwyd yn ddiweddarach gan y Bwrdd Gweithredol
   - Y Strategaeth Pobl Hŷn
   - Strategaeth prydau bwyd cymunedol

- Rheoli asbestos yn nhai'r cyngor
- Gosod drysau PVC
- Gwasanaeth Iechyd Meddwl Pobl Hŷn
- Adroddiad archwilio diogelwch bwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd
- Adolygiad o wybodaeth perfformiad tai
- Adolygiad o wybodaeth perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol
- Polisi ar gyfer gosod lletyau'r cyngor a arweiniodd at argymhelliad i'r Bwrdd Gweithredol a gytunodd ar y polisi adolygedig.
- Monitro'r Cynllun Taliadau Uniongyrchol yn barhaus
- Adolygiad o dai i bobl genedlaethol amddifad A8 a arweiniodd at bolisi a gytunwyd ar ôl hynny gan y Bwrdd Gweithredol
- Cyflwyniadau gan gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig partner a thrafodaethau â nhw
- Monitro ac adolygu amseroedd aros am therapi galwedigaethol yn barhaus
- Strategaeth gomisiynu i wasanaethau ar gyfer pobl anabl â phroblemau corfforol a synhwyraidd ac anhwylderau niwrolegol hirdymor.
- Adolygiad o'r adran eiddo a chynnal a chadw
- Strategaeth gomisiynu i wasanaethau ar gyfer pobl hŷn a phobl â dementia (yn dal i barhau)

6. Mae wedi dod yn fwy amlwg hefyd bod mwy o aelodau o'r cyhoedd wedi bod yn dod i gyfarfodydd archwilio pan fo materion sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd wedi bod ar yr agenda, er enghraifft yr adolygiad presennol o Strategaeth Gomisiynu Pobl Hŷn.

7. Hefyd, ceir mwy o adolygiadau asiantaethau allanol ac enghreifftiau o weithio mewn partneriaeth. Er enghraifft, ym mis Tachwedd 2005, gwahoddwyd cynrychiolwyr o gymdeithasau tai (Cymdeithas Tai Clwyd Alyn, Cymdeithas Tai Clwyd, Cymdeithas Tai Cymru a'r Gorllewin) i gyfarfod y pwyllgor i ddadlau ynghylch materion gydag aelodau'r pwyllgor. Mae'r pwyllgor hefyd wedi cael cyfarfodydd ar y cyd â'r Bartneriaeth Tenantiaid ac Aelodau pan drafodir materion sy'n berthnasol i'r ddwy ochr.

8. Mae'r Pwyllgor Archwilio Materion Cymdeithasol, Iechyd a Thai yn awyddus i annog mwy o ymglymiad y cyhoedd a phartneriaid yn ystod 2006 - 07. Mae cynlluniau eisoes ar waith ar gyfer cyfarfod ar y cyd rhwng y Bartneriaeth Aelodau a Thenantiaid ym Mai 2006 ac mae Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru wedi cytuno i fynychu cyfarfod sydd wedi'i drefnu'n arbennig ym Mehefin 2006. Mae trafodaethau ar y gweill hefyd i annog ein partneriaid iechyd i gymryd mwy o ran mewn archwilio yn Wrecsam. Cynllunnir ymweliadau pellach gan aelodau'r pwyllgor gan gynnwys ymweliadau ag Unedau Cysgodol Moorlands a'r Cwrt Brenhinol ym Mehefin 2006 ac Achub y Teulu ym Mhlas Llaneurgain ym Medi 2006.

2. EDRYCH YMLAEN – DARPARU GWELLHAD PELLACH

2.1 Darlun Cenedlaethol

Mae'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus yn goruchwylio datblygiad y swyddogaeth archwilio ar lefel genedlaethol. Yn ystod 2005 pwysleisiodd y Ganolfan Craffu Cenedlaethol y potensial i archwilio'n gyhoeddus ar bob lefel o'r broses ddemocrataidd, i roi llais i ddinasyddion o fewn strwythurau llywodraethu, ac i ddod â newidiadau o ran polisi a darpariaeth gwasanaeth. Yn eu hadroddiad yn 2005, datganodd y Ganolfan Craffu Cenedlaethol:

' yr her i archwilwyr a dinasyddion-lywodraethwyr yw meddwl yn drachywir am gydgysylltiad yr holl faterion [sy'n wynebu'r llywodraeth]. Y peth gwaethaf oll fyddai trin archwilio fel blwch bach ar ei ben ei hun' (CCC 2005)

Yn dilyn ymlaen o hyd, ym Mawrth 2006 datganodd eu harchwiliad 'Scrutiny in an evolving public services landscape':

'….mae pwyllgorau archwilio awdurdodau lleol yn gwella atebolrwydd ac ymatebolrwydd gwasanaethau trwy archwilio. Fodd bynnag, mae amgylcheddau gwasanaethau cyhoeddus a pholisi heddiw yn dod â heriau newydd wrth berfformio eu rôl yn effeithiol:

- *Mae angen mwy o unigolion anweithredol (e.e. Aelodau Archwilio) i archwilio materion strategol cyffredinol wrth i ddarpariaeth gwasanaeth gynnwys mwy o nodweddion megis dewis, comisiynu a chontractio yn hytrach na darpariaeth uniongyrchol*

- *Anogir unigolion anweithredol (e.e. Aelodau Archwilio) i glosio at y dinasyddion a'r cymunedau y maent yn eu cynrychioli, gan sicrhau bod y ddarpariaeth yn ymateb i ofynion ar lefel leol a chymdogaethol hyd yn oed'*

Nid yw'r ymgyrch am wellhad parhaus ledled gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru erioed wedi bod yn gryfach. Mae 'Ar Draws Ffiniau', yr adolygiad o ddarpariaeth gwasanaethau lleol a gyhoeddwyd yn ddiweddar ac a arweiniwyd gan Syr Jeremy Beecham, yn cynnwys nifer o negeseuon grymus, gan gynnwys:

- Mae newid sylfaenol yn digwydd yn y ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu trefnu a'u darparu. Mae'r newid yn cael ei nodweddu gan gynnydd mewn disgwyliadau ymysg y cyhoedd a phwysigrwydd eu cynnwys wrth ffurfio a monitro'r gwasanaethau hynny. Mae cynnydd yn yr angen i sicrhau effeithiolrwydd fel y gellir bodloni'r gofynion cynyddol hyn lle mae adnoddau'n aros yr un fath, neu'n gostwng mewn rhai achosion.
- Mae angen i'r ymglymiad hwn â'r cyhoedd gynnwys penderfyniadau agored am ba mor dda mae gwasanaethau lleol yn perfformio, a gweithio gyda'r cyhoedd i sefydlu blaenoriaethau i'w gwella.
- Hyd yma, mae archwilio wedi bod yn rhy fewnsyllgar ac nid yw wedi edrych yn ddigon eang ar p'un a yw gwasanaethau cyhoeddus (y tu mewn a thu allan

i'r Cyngor) yn cyflawni canlyniadau dymunol a pham, ac nid yw wedi cynnwys digon o ddefnyddwyr.

Mae'n amlwg yn adroddiad Beecham ac o ystod o astudiaethau mwy penodol i effaith archwilio yng Nghymru a Lloegr, nad yw archwilio wedi'i weld yn gyson fel rhan annatod o agenda gwellhad o fewn Cynghorau. I ddyfynnu Beecham:

'Byddai diwylliant wedi'i yrru gan wellhad yn cymryd archwilio yn fwy difrifol ac yn rhoi statws uwch a ffocws amlddisgyblaeth fwy heriol…. Dylai'r nod fod i ddarparu her effeithiol i ddiwylliant cyfundrefnol ac archwilio p'un a yw gwasanaethau cyhoeddus yn cyflawni canlyniadau dymunol gyda'i gilydd….

Dylai archwilio, rheoli perfformiad, rheoleiddio ac arolygu ffurfio grym cydlynol i wella…'

Mae heriau clir i archwilio ar lefel genedlaethol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Mae angen i archwilio gael ei weld fel, a gweithredu fel, modd o herio perfformiad Cynghorau, a darparwyr gwasanaethau eraill yn eu hardal
- Mae angen i archwilio ddarganfod ffyrdd o gysylltu â defnyddwyr a phreswylwyr lleol eraill i gael eu barn am beth sydd angen ei newid, a syniadau o le a sut y gellid cyflawni gwellhad.
- Mae angen archwilio effeithiolrwydd gwasanaethau presennol a nodi ffyrdd creadigol o gael gwell effeithiolrwydd heb amharu ar ansawdd a lefelau gwasanaeth. Mae'r rhain yn debygol o gynnwys gwell cydweithio, er enghraifft rhwng cynghorau ac ar draws sectorau.

Er y canfyddir y swyddogaeth archwilio yn gyffredinol fel un sydd wedi gwella'n sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae'n amlwg o'r sylwadau uchod y bydd y Cyngor yn wynebu heriau pellach yn ystod y 12 mis nesaf i wella effeithiolrwydd archwilio. Rydym wedi nodi nifer o feysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt a manylir ar y rhain isod.

2.2 Datblygiad pellach yn 2006/07

2.2.1 Yn ogystal â'r llwyth gwaith presennol, mae nifer o feysydd allweddol wedi'u nodi i'w gwella ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae'r rhain yn cynnwys:

2.2.1.1 **Gwella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth swyddogion o'r swyddogaeth archwilio** - Un o'r rhwystrau mwyaf sy'n atal y swyddogaeth archwilio rhag bod yn fwy effeithiol o fewn yr awdurdod yw diffyg dealltwriaeth ymysg swyddogion o drefniadau rheoli gwleidyddol cyffredinol a rôl archwilio yn arbennig. Gwneir mwy o ymdrechion i godi ymwybyddiaeth o'r swyddogaeth archwilio ymysg Swyddogion ar bob lefel trwy, er enghraifft, gyfarfod gyda nhw, defnyddio'r fewnrwyd, cynnwys erthyglau yn Diweddariad (cylchgrawn staff y Cyngor) a newyddlenni.

2.2.1.2 **Adolygiad o'r swyddogaeth archwilio a threfniadau cefnogi** - Fel yr amlygwyd yn gynharach yn yr adroddiad, cynhelir adolygiad o

effeithiolrwydd y swyddogaeth archwilio a threfniadau cefnogi archwilio yn ystod 2006 - 2007 i nodi meysydd i'w gwella neu i'w newid. Bydd hwn yn ddarn pwysig o waith i'r Tîm Archwilio ac Aelodau Archwilio. Bydd rhan o'r adolygiad hwn yn gofyn am asesiad o effaith y gwaith archwilio ar welliannau a newidiadau i wasanaethau a pholisïau'r Cyngor. Bydd hyn yn cynnwys:

- Cynnal arolwg o ganfyddiad aelodau a swyddogion trwy ddefnyddio'r fframwaith gwerthuso y cyfeirir ato ym mharagraff 1.10.2;
- Adolygu a datblygu dangosyddion perfformiad archwilio ystyriol;
- archwilio cylch gorchwyl a llwyth gwaith pob pwyllgor;
- datblygu systemau a phrosesau mewnol ymhellach er mwyn helpu i gadw llwybr o eitemau sydd wedi'u harchwilio a monitro canlyniadau, effeithiolrwydd ac effaith. (Gweler Atodiad 3 am enghraifft 1 dudalen o un o'r systemau a ddatblygir. Mae fersiynau llawn o'r dogfennau hyn - un i bob pwyllgor - ar gael ar y fewnrwyd a thrwy'r Tîm Archwilio.)

2.2.1.3 **Datblygu aelodau –** Mae'r Grŵp Cydlynol Cyd-gadeiryddion Archwilio wedi nodi'r blaenoriaethau canlynol ar gyfer Datblygu Aelodau Archwilio:

- Gosod targedau a monitro perfformiad
- Adolygu a datblygu polisi
- Rheoli asedau
- Archwiliadau ariannol

Atodiad 1

RHESTR WIRIO ARCHWILIO

Materion i'w hystyried wrth gynnal Adolygiad Archwilio

Proses

Mae proses wyth cam syml wedi'i datblygu i gynnal adolygiadau archwilio sy'n tynnu sylw at nifer o gwestiynau sydd angen eu gofyn a materion sydd angen eu hystyried:

1. Cwmpas yr adolygiad (beth sy'n cael ei gynnwys a beth sy'n cael ei eithrio?)
2. Diffinio'r cylch gorchwyl (beth yw'r amcanion a'r canlyniadau dymunol?)
3. Cynllun prosiect (beth yw'r amserlen ar gyfer cynnal yr adolygiad, pwy sy'n gwneud beth a phryd?)
4. Pa wybodaeth sydd gennym ar hyn o bryd? / Pa wybodaeth sydd ei hangen arnom ac o le y daw?
5. Pwy sydd angen i ni siarad / gyfweld â nhw?
6. Dadansoddi gwybodaeth (nodi a gwerthuso opsiynau, cytuno ar ffordd ymlaen)
7. Canlyniadau atborth / canlyniadau i bawb sydd â diddordeb (yn arbennig y rheiny sydd wedi cymryd rhan)
8. Dilyn i fyny (monitro cynnydd, gwerthuso p'un a yw gwelliannau disgwyliedig wedi'u cyflawni)

Trafodir pob un o'r camau hyn yn fwy manwl isod.

1. Cwmpas yr adolygiad

- Diffinio'n union beth yr edrychir arno (a beth sydd y tu allan i'r cwmpas)
- Pwy fydd yn edrych arno, er enghraifft, Pwyllgor Archwilio llawn, is-grŵp, tasglu byrdymor, cynnwys cynrychiolwyr allanol ac ati
- A yw'n adolygiad y gall yr awdurdod ei gynnal ar ei ben ei hun - a ddylem ystyried cynnal adolygiad ar y cyd â chyrff allanol neu awdurdodau eraill?

2. Diffinio'r cylch gorchwyl

- Beth ydym yn gobeithio ei gyflawni o'r adolygiad?
- Beth yw amcanion yr adolygiad?
- Beth yw'r canlyniadau dymunol?
- O ystyried yr uchod, a yw'n werth cynnal yr adolygiad h.y. asesu'r manteision posibl yn erbyn cyfanswm y mewnbwn / adnoddau sydd eu hangen (dadansoddiad cost / budd)?

3. Cynllun prosiect

- Mae angen diffinio beth sydd angen ei wneud, pwy fydd yn ei wneud a phryd?
- Pwy ddylai fod yn gysylltiedig ac i ba raddau?
- Pwy yw'r cyfranwyr / buddiolwyr mwyaf yn yr adolygiad hwn? – a fyddant yn cymryd rhan weithredol neu'n ymgyngoreion yn unig?
- Clustnodi rolau a chyfrifoldebau a diffinio rolau:
  - Aelodau
  - Swyddogion

- Cefnogaeth archwilio
- Cyrff allanol
- Y cyfryngau (gweithio gyda'r cyhoedd / cyrff allanol)

- Pryd / pa mor aml y dylem gyfarfod?
- Beth yw pwrpas / prif ffocws pob cyfarfod?
- Pwy fydd yn gysylltiedig â phob cam?
- Beth yw dyddiad cwblhau'r adolygiad?

Sylwer

- "Peidiwch â brathu mwy nag y gallwch ei gnoi", o ystyried amserlenni ac adnoddau
- Efallai y bydd angen gwybodaeth sylfaenol arnom cyn y gallwn gymryd camau 1 a 2 uchod
- Efallai y bydd angen i'r uchod gael ei adolygu wrth i fwy o wybodaeth ddod i'r wyneb
- Awgrymir y dylid cytuno ar gynllun prosiect ysgrifenedig y gellir ei ddefnyddio i fonitro cynnydd yn ystod yr adolygiad

4. Pa wybodaeth sydd ei hangen arnom i gynnal yr adolygiad?

(O ystyried cwmpas yr adolygiad, cylch gorchwyl a'r angen i sicrhau ein bod yn cael barn gytbwys)

- Beth sydd gennym ar hyn o bryd?
  - Canlyniadau'r ymgynghoriad
  - Gwybodaeth perfformiad
  - Adolygiadau / adroddiadau o'r gorffennol ac ati

- Pa wybodaeth ychwanegol fydd ei hangen arnom? (Cyfeiriwch hefyd at adran 5 isod):

- O ble y cawn y wybodaeth?
  - Defnyddio technoleg, er enghraifft ffotograffau, rhyngrwyd ac ati
  - Erthyglau'r wasg
  - Ymweliadau â safleoedd
  - Cyfweliadau â thystion
  - Ymarferion ymgynghori, arolygon ac ati
  - Ymgynghorwyr allanol
  - Data cymharol / ymweliadau ag awdurdodau eraill

- Pwy fydd yn ei gasglu? (Clustnodi cyfrifoldebau):
  - Aelodau
  - Cefnogaeth archwilio
  - Swyddogion ac ati
  - A oes unrhyw un arall a allai ymgymryd â'r gwaith, er enghraifft cyrff allanol, gwirfoddolwyr, mudiadau gwirfoddol, myfyrwyr colegau, prosiectau ysgol, y cyfryngau lleol ac ati

- Ar ba ffurf y caiff gwybodaeth ei choladu / chyflwyno:
  - Adroddiadau
  - Cyflwyniadau

- Taflenni gwybodaeth
- Ar lafar trwy gyfweliadau ac ati

5. Pwy sydd angen i ni ymgynghori / gyfweld â nhw?

- Pa wybodaeth sydd ei hangen arnom a sut allwn ei chasglu?
- Pwy ddylem siarad â nhw (sicrhau ein bod yn cael barn gytbwys)?
- Sut allwn ni gael y safbwyntiau hyn?:
  - Gwahodd i gyfarfod(ydd)
  - Hysbysebu
  - Anfon llythyr atynt
  - Mynd atynt
- Dewis lleoliadau sy'n gwella / cynyddu ymglymiad allanol
- Ystyried o flaen llaw:
  - Pa gwestiynau yr hoffem eu gofyn, ystyried y cwmpas a'r cylch gorchwyl

6. Ystyried tystiolaeth / gwybodaeth

- Beth mae'n ei ddweud wrthym?
- Pa faterion allweddol sydd wedi'u nodi:
  - O safbwynt yr Awdurdod
  - O safbwynt y defnyddiwr/cyhoedd
- Pa welliannau ydym am eu cyflawni (gwiriwch fod y rhain yn dal i fod yr un fath â'r rhai a nodwyd pan bennwyd y cylch gorchwyl gwreiddiol yn adran 2 uchod)
- Llunio atebion / gwelliannau (lle bo hynny'n briodol):
  - Nodi opsiynau a chamau gweithredu sy'n ofynnol i gyflawni'r gwelliannau dymunol
  - Gwerthuso opsiynau o safbwyntiau amrywiol (cymdeithasol, cost, ac ati)
  - Cytuno ar ffordd ymlaen h.y. nodi opsiynau dewisedig
- Pa argymhellion / gynigion allwn eu gwneud?

7. Atborth

- Canlyniadau'r atborth / casgliadau i bob un sydd â diddordeb (yn arbennig y rheiny a gymerodd ran):
  - Beth ydym wedi'i ddarganfod?
  - Beth yw'r argymhellion?
  - Pam aethom am yr opsiwn dewisedig?
  - Beth yw'r amserlen ar gyfer gweithredu?

8. Dilyn i fyny

- Dilyn i fyny (monitro cynnydd, gwerthuso a gyflawnwyd y gwelliannau dymunol?)
- Enwebu rhywun sy'n cymryd rhan weithredol yn yr adolygiad i:
  - Gyflwyno adroddiad i'r Bwrdd Gweithredol
  - Gweithredu fel cyswllt i bartïon eraill e.e. Bwrdd Gweithredol, asiantaethau allanol ac ati
  - Monitro cynnydd
  - Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau yn ôl yr angen

Atodiad 2

CWESTIYNAU HERIOL

Wrth ystyried perfformiad, pa fath o gwestiynau ddylem eu hystyried?

Enghreifftiau:

- A yw'r targedau'n cwmpasu holl feysydd gwaith arwyddocaol ac a ydynt yn rhoi darlun cytbwys o berfformiad? (e.e. a ydynt yn cwmpasu costau, ansawdd, mynediad, mewnbwn, allbwn, canlyniadau)

- Ai dyma'r targedau cywir?
  - A ydynt yn debygol o alluogi Rheolwyr ac Aelodau i weithredu er mwyn arwain tuag at newid? Sut ydym yn gwybod?
  - A ydym yn mesur perfformiad yn erbyn beth mae ein cwsmeriaid / defnyddwyr yn meddwl sy'n bwysig ac ar lefel sy'n dderbyniol iddynt? Sut ydym yn gwybod?

- Sut ydym yn gwybod nad yw'r targedau yn rhy hawdd i'w cyflawni?

- Beth sy'n digwydd pan na chyrhaeddir y targedau? Beth sydd ar waith i wella hyn?
  - A yw'r rhesymau a roddir am lithriadau yn rhai cywir yn hytrach na disgrifiadau o'r hyn a wnaethpwyd o'i le, neu esgusodion?
  - A yw'r ymatebion bwriadedig yn dangos y camau a gymerir i ail-flaenoriaethu neu wella tanberfformiad?

- A yw'r gwelliannau / dangosyddion yn cyfateb i weledigaeth y Cyngor, gofynion statudol, blaenoriaethau a pholisïau allweddol?

- A yw'r gwelliannau / dangosyddion yn debygol o arwain at ganlyniadau gwerthfawr ac a yw'r canlyniadau yn ddiamwys ac yn glir?

- A yw'r gwelliannau / targedau yn cydblethu, lle bo hynny'n briodol, gyda gwelliannau arfaethedig mewn rhannau eraill o'r Cyngor, neu gydag asiantaethau perthnasol eraill.

- A yw'r dangosyddion a'r gwelliannau yn debygol o olygu unrhyw beth i fudd-ddeiliaid? (Aelodau, swyddogion, defnyddwyr, y cyhoedd, arall) ac a ydynt yn gwybod beth ydym yn ceisio ei gyflawni?

- Sut ydym yn perfformio yn erbyn awdurdodau eraill? Neu asiantaethau / cyrff eraill os yn berthnasol e.e. cwmnïau preifat.

- A fydd y dangosyddion yn ychwanegu mwy o werth na chost y gwaith o gasglu'r data?

- A ydym am fod yn awdurdod hwylio fynd / canolig?

- Sut fyddai perfformiad y chwartel uchaf yn edrych i bob blaenoriaeth gorfforedig?

- Beth fyddai angen i ni ei wneud i gyrraedd y chwartel uchaf? (A sut fyddwn yn gwybod pryd ydym wedi cyrraedd yno – e.e. Beth yw'r canlyniadau diriaethol?)

- A yw perfformiad yn gwella / gostwng? Pa mor gyflym?

- A yw'r broses o osod targedau yn rhan o raglenni gwaith archwilio?

Atodiad 3